Paratowch bortffolio (fel petech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Friday, January 3, 2020 2:05 PM

Enw: Nia Angharad Jones

Rhif myfyriwr:1900491

Llwybr: TAR Cynradd

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Sicrhau nad oes gor-ddefnydd o ddyfyniadau o fewn yr aseiniad.	Rwyf wedi arallerio yn fwy yn lle defnyddio dyfyniadau
Targed 2	Parhau i wirio gwaith ysgrifenedig yn ofalus ac, wrth ddarllen drosto, sicrhau bod ystyr yr hyn a drafodir yn glir i eraill.	Rwyf wedi darllen drosto fy nghwaith sawl tro.

Dolen i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1900491_student_uwtsd_ac_uk/ErmAlKdSfGBEt4_-o83LC0cBh9IfLmj1V_U7A6wGtRKybg?e=hX8DfH

Mae’r ddogfen Ddyfodol Lwyddiannus (2015) sydd wedi cael ei chyhoeddi gan yr Athro Graham Donalson yn amlinellu argymhellion ar gyfer sut roi’r addysg gorau a sgiliau i blant i’w paratoi ar gyfer eu dyfodol. Yn y ddogfen yma, awgryma Donaldson bod yna deuddeg egwyddor i sicrhau addysgu a dysgu da yn ein hysgolion. Y tri dewiswyd yw 1. gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb, 2. dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu a 3. Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn cael eu cryfhau’n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i’w harfer. Mae yna enghreifftiau o sut weithredwyd yr egwyddorion yn dabiau isod.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer

Enghraifft ddarluniadol 1- Llythrennedd

Friday, January 3, 2020 2:06 PM



Athro dan hyfforddiant	Nia Angharad Jones	Dosbarth:	Meithrin
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Mathemateg a Rhifedd	Dyddiad:	26.11.19
Ffocws Gwers:	Creu patrwm		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	**Datblygiad Mathemategol-** copïo patrymau a dilyniannau syml gweledol a chlywedol, e.e patrymau wedi'u clapio, gweithgareddau gosod ar linyn. **Datblygiad corfforol-** datblygu sgiliau llawdriniol mawl		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	**Llythrennedd-** arbrofi ag ystod o ddefnyddiau ac offer gwenud marciau mewn amrywiaeth o gyd-destunau **Cymwysedd digidol-** cwblhau patrymau a dilyniannau		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol) **2)Addysgeg: Mireinio** Rheoli'r amgylchedd dysgu. *Mae'r darpar athro'n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w sefydlu a'i reoli'n effeithiol ac yn barhaus*			



Modeli bstrwm lliw gan ddefnyddio adnodd digidol ar topmarks		
Fi- Dangos y sgarff sydd wedi'u ludo yn ei llyfrau yn barod a modeli ble bydden yn lliwio. Cyn mynd ati i liwio mae angen creu'r patrwm yn defnyddio'r blociau ar ben y sgarff i sicrhau dealltwriaeth. Atgoffa'r plant bod angen i ailadrodd y lliw a sicrhau bod ddim yr un lliw ar bwys ei gilydd. Rhoi cymorth wrth iddynt weithio Ar ôl iddynt deall y cysyniad o patrwm gallwn fynd ati i gopio gan liwio'r sgarff un bloc ar y tro gyda pensiliau lliw ddatblygu ei sgiliau pensil. Anwen- creu sgarff yn defnyddio blociau a phaent ar strip o garden	Gwrando ac edrych ar y cyfarwyddiadau Dewis dau liw i ddefnyddio Creu patrwm ailadroddus gyda'r blociau	Llyfrau Pensiliau lliw Blociau lliw Carden



Mae angen iddo fe fod yn batrwm o ddau liw ond gallwn ddewis unrhyw dau maen nhw eisiau. Modeli sut i greu'r patrwm yn defnyddio'r blociau a phaent ar y garden Cyn mynd ati i greu'r patrwm yn defnyddio'r blociau lliw yn gyntaf ar ben y sgarff i sicrhau dealltwriaeth. Ar ôl iddynt ddeall y cysyniad o patrwm yn defnyddio'r blociau lliw, gallwn fynd ati i gopio'r patrwn yn defnyddio blociau a phaent.	Gwrando ac edrych ar y cyfarwyddiadau Dewis dau bloc lliw gwahanol Creu patrwm yn defnyddio'r blociau Rhoi bloc yn y paent cywir ac yna gwasgu ar y garden, dewis bloc arall i roi mewn paent lliw arall ac yna gwasgu lawr ar bwys y lliw arall. Ailadrodd hyn tan fod nhw wedi dod i'r diwedd. Atgoffa'r plant bod angen i ailadrodd y lliw a sicrhau bod ddim yr un lliw ar bwys ei gilydd.

Yn fy ngwers ar batrymau yn nosbarth Meithrin fe ofynnais i'r plant i greu patrymau ddau liw mewn ffyrdd gwahanol. Yn gyntaf roedd angen iddynt greu'r patrwm gan ddefnyddio blociau lliw i sicrhau bod nhw'n deall y cysyniad. Yna dau grŵp yn gylch droi rhwng y cynorthwyydd a finnau.

Roeddwn yn ymwybodol roedd angen ddatblygu sgiliau llawdriniol manwl y plant er mwyn iddynt dal offer ysgrifennu yn gywir pan fyddant yn barod i ysgrifennu. Noda Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) pan fydd y cyhyrau bach yn aeddfedu mae cydsymud llaw-llygad yn hefyd. Mae angen ddatblygu cydsymud llaw-llygad yn rhagofyniad ar gyfer dal offer ysgrifennu yn gywir er mwyn creu marciau ar bapur ac i ffurfio llythrennau a rhifau yn ddiweddarach.

Mae sawl ffordd o ddatblygu sgiliau llawdriniol manwl er enghraifft chwarae a thoes, blociau bach, gwehyddu ayyb. Felly, roedd dwy ffordd roeddwn i am iddynt greu'r patrwm gan ddefnyddio ei bysedd ysgrifennu. Mae'r blociau pren a phaent ar garden wen yn helpu nhw i wybod faint o bwysau sydd angen i greu'r marc ac mae defnyddio pensiliau lliw i liwio sgarff yn datblygu ei sgiliau dal offer ysgrifennu yn gywir.

Roedd bron pob un yn gallu trafod yr offer yn gywir heb gymorth, ond am dau fachgen (wedi sylweddoli hyn mewn gwersi blaenorol). Felly roedd y dasg yn dda iddynt yn enwedig y bloc a'r paent oherwydd roeddwn yn gallu gweld yn amlwg faint o bwysau oedd angen rhoi ar ben y bloc er mwyn gadael marc ar y papur.

Enghraifft ddarluniadol 1- Rhifedd

Friday, January 3, 2020 2:11 PM

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Athro dan hyfforddiant	Nia Angharad Jones	Dosbarth:	Meithrin
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Ieithoedd, llythrennedd a Chyfathrebu	Dyddiad:	11.11.19
Ffocws Gwers:	Trefnu stori		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	**Iaith**- Ateb cwestiynau syml 'pwy?' 'Beth?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig a'u profiadau hunain, storïau neu ddigwyddiad **Corfforol**- datblygu sgiliau echyddygol bras		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	**Llythrennedd**- ailadrodd stori neu wybodaeth y maent wedi'i glywed mewn termau syml. Cofio manylion stori neu destun drwy ateb cwestiynau penagored neu ddefnyddio lluniau i'w helpu dilyn llyfrau lluniau a thestunau a ddarllenir iddynt ac ymateb yn briodol. Rhifedd- defnyddio'r termau 'cyntaf' 'ail', 'trydydd' ac 'olaf' mewn gweithgareddau bob dydd a chwarae.		

Yn y wers yma roeddwn yn trefnu lluniau o'r stori 'Methu cysgu wyt ti arth bach?'. Dyma'r stori roeddwn yn gweithio ar yr wythnos yma. Fe wnes i gyflwyno'r stori i'r dosbarth cyfan i ddechrau cyn mynd at i i wneud y dasg ffocws mewn grwpiau o 5.

Y ffocws oedd y trefnu lluniau yn ôl trefn y stori gan ddefnyddio iaith fathemategol o gyntaf, ail, trydydd ayyb.

Penderfynais i ddefnyddio'r sgil hyn oherwydd mae'n digwydd yn naturiol pan rydym yn trefnu pethau fel stori neu ddigwyddiad. Roeddwn newydd glywed y stori ac yn amlwg wedi gwrando a mwynhau oherwydd roeddwn yn cofio ym mha drefn oedd y lluniau yn mynd yn eithaf annibynnol. Roeddwn yn cwestiynu'r plant gan ddefnyddio'r termau cyntaf, ail ayyb iddynt glywed y patrwm iaith cyn ceisio dweud eu hunan. Gweithiodd hwn yn arbennig oherwydd roedd y plant yn wir wedi deall y cysyniad o drefnu'r lluniau gan ddefnyddio rhif i esbonio'r drefn, gallwn wedi defnyddio rhifau hefyd i atgyfnerthu hyn.

Mae'n bwysig bod plant yn defnyddio sgiliau mathemateg mewn cyd-destunau gwahanol er mwyn datblygu ei sgiliau o rifedd ar draws pynciau nid yn unig mewn gwersi mathemateg oherwydd mae rhifedd yn bwysig iawn yn y byd go iawn. Mae'r wefan 'national numeracy' yn esbonio pa mor bwysig mae sgiliau rhifedd i ni mewn bywyd e.e.. Trafod arian, amser hyd yn oed mesur moddion.

https://www.nationalnumeracy.org.uk/why-numeracy-important

Enghraifft ddarluniadol 3- Cymhwysedd digidol

Friday, January 3, 2020 2:15 PM



Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	gwmpas y iard ac mae angen iddynt chwilio amdanynt. Ydych chi'n cofio pa anifeilad sydd yn y stori? Esbonio bod yna olion traed o amgylch y iard sydd a cod QR arnynt. Mae angen sganio'r cod QR yn defnyddio'r ipad. Esbonio bod pawb yn mynd i gael tro i sganio. Bydd y cod yn ymddangos cliw i arwain ni at y anifail mae'r ôl troed yma'n berchen. Dweud wrth y plant y grwp gyntaf i fynd i wisgo cot tra bod i'n mynd dros y heriau gyda'r gwedill y dosbarth ac anfon ni i'r ardaloedd.	Plant i restri'r anifeiliaid Gwrando ar y cyfarwyddiadau	
Addysgu a Dysgu Craidd	Dangos y ôl troed cyntaf a dewis plentyn i sganio'r cod QR gyda'r ipad. Darllen y cliw gyntaf- pwysleisio taw y cliw cyntaf yw e Ble ydych chi'n credu mae'r _____ yn cuddio? Darllen yr ail cliw- pwysleisio taw'r ail gliw yw e Chwilio am yr anifail- pwysleisio ble mae'r anifail e.e ar ben, o dan ayyb Ble ydych chi'n credu mae'r _____ yn cuddio	Plentyn dewisol i sganio'r côd Pawb arall i wylio a gwrando ar y cliw Cynnig ateb ac yna chwilio- ailadrodd nes iddynt darganfod yr anifeilaid i gyd.	Lluniau'r anifeiliad yn cuddio Olion traed Ipad

Yn y wers yma fe gyflwynais god QR i'r disgyblion am y tro gyntaf. Cyn dechrau roeddwn wedi gofyn cwestiynau er mwyn asesu beth oeddent yn gwybod amdanyn nhw ac nid oedd un yn gwybod beth oedden nhw. Esbonies iddynt gan dangos iddynt wrth sganio gyda'r Ipad. Deallodd pob un yn syth oherwydd mae pob un yn gyfarwydd a defnyddio Ipad. Cyn gadael i'r plant i ddefnyddio'r ipad i sganio, trafodon ni rheolau am sut i drin y ddyfais yn enwedig oherwydd roeddwn du allan.

Cymerasant eu tro i sganio cod QR, yna darllenais y cliw iddynt er mwyn defnyddio sgiliau meddwl i weithio allan lle'r oedd yr anifail yn cuddio. Yna roedd yn rhaid iddynt ddod o hyd i'r anifail, yna'r ôl troed nesaf a oedd â'r cod QR nesaf arno.

Dywed EEF (2019) bod astudiaethau yn dangos bod technoleg ddigidol yn gysylltiedig ag enillion dysgu ond mae'n bwysig i wybod taw defnyddio technoleg i ategu addysgu nid i ddisodli. Mae'n bwysig bod y plant yn cael y cyfle i arbrofi gyda thechnoleg ddigidol er mwyn deall sut maent yn gweithio. Dylent gael cyfle i'w ddefnyddio ym mhob maes addysg ac nid yn unig ar gyfer gwersi TGCh

Roedd defnyddio codau QR wedi gweithio'n dda iawn yn y wers yma oherwydd roedd y plant yn canolbwyntio drwy gydol y wers ac wedi mwynhau yn fawr iawn. Deallodd pob un sut i sganio'r codau er mwyn darganfod y cliwiau. Erbyn diwedd y wers oedd pob un wedi cofio beth oedd cod QR ac yn gallu cofio ble oedd yr anifeiliaid yn cuddio.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu Enghraifft ddarluniadol 1 -Cwestiynu

Friday, January 3, 2020 2:18 PM





Yn y wers yma roeddwn yn cyflwyno codau QR i'r disgyblion am y tro gyntaf gyda dosbarth meithrin. Defnyddies gwestiynu yn y wers yma i weld os gallant brosesu'r wybodaeth yna ei defnyddio i weithio allan y cliw. Roeddwn yn darllen y cliw iddynt i weld os oeddwn yn gallu gwrando a phrosesu'r wybodaeth. Gofynnais gwestiynau ar ddechrau, diwedd a drwy gydol y wers hon er mwyn asesu eu hatebion ac i asesu os oedd y plant wedi deall y dasg ac wedi gwneud cynnydd.

Dywed Medwell (2010) bod Cwestiynu yn rhan bwysicaf o addysgu ac mae angen ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau agored a caeedig yn dibynnu ar y dasg. Fe wnes i sicrhau fod y cwestiynau yn glir i'r disgyblion a gofynnais yn Gymraeg a Saesneg oherwydd roedd llawer o Saesneg yn y dosbarth. Felly gan ofyn yn y ddwy iaith roedd y plant yn deall yn well ac yn datblygu ei sgiliau Cymraeg hefyd.

Gweithiodd y dull hwn gan y gallwn asesu'r disgyblion mewn amser real ac addasu'r wers yn unol â hynny. Ac oherwydd roeddwn ni tu fas mewn grwpiau bach roeddwn yn gallu asesu pob un yn rhwydd ac yn gallu gweld a oedd rhai ddim yn deall neu beidio ag yn gallu cynnig cymorth iddynt.

Enghraifft ddarluniadol 2- Meini Prawf llwyddiant

Friday, January 3, 2020 2:22 PM



Dros y cyfnod cyntaf o PAP 1 ddatblygais fy nealltwriaeth o'r effaith mae'r meini prawf yn cael ar waith y plant. Roddwn yn trafod gyda'r plant beth oedd angen gwneud i gwblhau'r dasg yn gywir. E.e.. Yn y wers patrymau roedd y plant wedi dweud bod angen creu'r patrwm yn gywir gan ddefnyddio dau liw yn ailadroddus a lliwio yn daclus gan ddal y pensil lliw yn gywir. (roedd angen annog y plant i feddwl gan gwestiynu nhw yn ofalus oherwydd maen nhw'n ifanc iawn)

Mae Hattie (2012) yn awgrymu fod rhannu meini prawf yn bwysig iawn yn y dosbarth. Y syniad yw bod y plant yn deall yn gwmws beth mae angen iddynt wneud i lwyddo yn y dasg. Yn well byth os fydd y plant yn rhan o gynllunio'r meini prawf fyddaf yn deall y dasg yn well ac yn teimlo'n fwy cyfrifol am eu haddysgu.

Ar ôl gorffen y dasg roeddwn yn marcio'r gwaith gyda'r plentyn ac yn trafod sut wnaethon nhw. Gofynnais ei barn nhw am y dasg i asesu ei dealltwriaeth a hefyd i weld os ydyn yn gallu asesu gwaith ei hunain a gosod targed clir.

Enghraifft ddarluniadol 3- Marcio

Friday, January 3, 2020 2:24 PM



Defnyddiais god marcio'r ysgol pan fyddaf yn gwneud gwaith yn y llyfrau. Yn y meithrin mae llawer o'r tasgau yn ymarferol felly roeddwn yn rhoi adborth ar lafar rhan fwyaf o’r amser a defnyddiau bodiau dealltwriaeth i ddangos os oeddwn yn deall neu beidio.

Roeddwn yn defnyddio pen pinc i nodi pethau positif am y gwaith ac yna defnyddio pen gwyrdd i nodi pethau i wella (pinc positif, gwyrdd gwella). Byddaf yn trafod gyda'r disgybl beth roeddwn wedi ysgrifennu oherwydd dydy'n nhw ddim yn gallu darllen ar hyn y bryd ac mae'n bwysig bod y plant yn deall yr adborth neu mae'n ddibwynt.

Cyn mynd ati i drafod yr adborth byddaf yn holi'r plentyn i weld sut oeddent nhw'n teimlo am eu gwaith gynaf ac ar ôl rhoi'r adborth byddaf yn gofyn a oeddwn yn cytuno.

Noda EEF (2018) bod astudiaethau ar adborth yn dangos effaith mawr ar ddysgu rhai yn dangos effaith negyddol a rhai effaith positif hefyd. Mae angen sicrhau bod yr athro yn wybodus am y ddau ac yn darparu adborth effeithiol sydd yn symud y dysgu ymlaen ond beidio â rhwystro plant rhag dysgu.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb Enghraifft ddarluniadol 1

Friday, January 3, 2020 2:28 PM



Addysgu a Dysgu Craidd	Mae Sali Mali angen ein help ni i goginio cawl 'c' i'w noson tân gwyllt. A ydych chi'n fodlon helpu? Ond mae'n dweud bod rhaid i'r cynhwysion i gyd i ddechrau gyda 'c' A ydych chi'n gallu enwi pethau sy'n dechrau gyda 'c'? Dw i wedi dechrau casglu cynhwysion ond roeddwn ni ddim yn siŵr pa rhai oedd yn dechrau gyda 'c'. A ydych chi yn gallu helpu? Dangos y gwrthrychau i gyd, rhai yn dechrau gyda 'm', 'a', 'c'. Maen nhw wedi dysgu 'm' a 'a' yn flaenorol. Dysgu llythyren newydd sef 'c' Un ar y tro dewiswch un peth hoffech rhoi yn y cawl ond cofiwch mae angen iddo ddechrau gyda beth?.... Troi'r 'cawl' yn y crochan ar ol pob plentyn -plant yn canu 'Cawl c cawl c beth sydd angen ar y cawl c? Esgus blasu-Ydych chi'n credu bydd Sali	Plant i greu cawl 'c' i noson tan gwyllt Sali Mali Heno. Pawb yn Canu cân beth sydd angen yn y cawl ccc... Un plentyn ar y tro i ddewis gwrthrych i fynd yn y cawl Canu'r gân ar y cyd, cyn mae'r plentyn nesaf yn dewis. Ar y diwedd pawb i esgus blasu'r cawl	• Crochan • Carden fflach 'c' • Gwrthrychau pethau c a pethau a

Yn y wers iaith roeddwn yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac ennyn diddordeb. Darllenais stori am Noson tân gwyllt Sali Mali wedyn dweud wrth y plant bos Sali Mali angen ein help i greu cawl 'c' i werthu yn ei noson tân gwyllt. Roedd angen iddynt ddewis y gwrthrychau sy'n dechrau gyda 'c' i fynd yn y cawl wrth weithio mewn grŵp. Defnyddiais wrthrychau sy'n dechrau gyda 'm' a 'a' hefyd oherwydd roeddwn wedi dysgu'r llythrennau hyn yn barod ac wedi gweld y gwrthrychau.

Cyn mynd ati i ddewis y gwrthrychau roeddwn wedi enw'r gwrthrychau wrth roi pwyslais ar y sŵn cychwynnol gan ganu cân maent yn gyfarwydd â. Ymgysylltodd y disgyblion yn y dasg oherwydd roedd e'n ymarferol iawn ac roeddwn nhw yn awyddus i gael tro i 'droi'r cawl'. Ar ddiwedd y wers roedd gem iddynt chwarae ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, yr un dasg oedd e ond llusgo’r lluniau o'r gwrthrychau mewn i'r crochan. Wrth wneud hwn roeddwn yn gallu asesu'r plant yn unigol a hefyd roedd e'n atgyfnerthu beth maent wedi dysgu ymhellach.

Enghraifft ddarluniadol 2

Friday, January 3, 2020 2:30 PM

Fe wnaethant fwynhau creu patrymau gyda'r blociau lliw yn fawr yn ystod gwers mathemateg (gweler enghraifft 1 o'r egwyddor drawsgwricwlaidd) Felly, rhoddais yr her iddynt i greu patrymau mewn ffordd wahanol ond dal yn defnyddio'r blociau.

Sylwais yn ystod fy wythnos gyntaf yn yr ysgol fod angen i rai gweithio ar ddatblygu ei sgiliau llawdriniol manwl oherwydd nad oeddent yn gallu dal pensil yn gywir. Felly er mwyn ddatblygu hyn gofynnais iddynt i greu neidr liwgar gan ddilyn patrwm ailadroddus gan edafu'r blociau ar lasyn.

Mae ymchwil yn dangos bod plant angen datblygu eu cyhyrau yn eu dwylo a'u harddwrn cyn y gallant ddal cyfarpar ysgrifennu yn iawn fel soniais yn enghraifft llythrennedd.

Wrth osod y dasg hon fel her roeddwn yn adeiladu ar ei dealltwriaeth o batrymau a sut i greu un ailadroddus ond hefyd yn datblygu ei sgiliau llawdriniol manwl.

Enghraifft ddarluniadol 3

Friday, January 3, 2020 2:31 PM

Roedd gan y plant rywfaint o wybodaeth am gysgodion cyn y wers gyntaf arnynt ond nid oeddent yn deall yn iawn sut y cawsant eu ffurfio. Fodd bynnag, erbyn diwedd y wers roeddwn yn hyderus ac fe wnaethant fwynhau eu creu yn fawr iawn.

Yn y wers gyntaf roedden yn arbrofi gyda chysgodion gan ddefnyddio torshis a blociau pren. Roedden yn gweithio mewn parau i adeiladu twr arall o flociau ar ddarn o bapur gwyn i ddechrau wedyn arbrofi gyda'r golau gan symud y torsh i weld beth oedd yn digwydd i'r cysgod. Ar ôl i'r ddau gael tro gofynnais iddynt ddefnyddio pensil i amlinelli'r cysgod ar y papur. Roedd hwn yn dipyn o her i rai oherwydd roedden yn gweld e'n anodd cadw'r torsh yn llonydd.

Oherwydd mwynheuodd y plant gymaint yn arbrofi gyda'r cysgodion ac yn amlwg yn canolbwyntio penderfynais i ddefnyddio cysgodion mewn gwers wahanol i ail ddweud stori yr oeddent yn gyfarwydd â. Fe wnaeth hyn ennyn eu diddordeb wrth adeiladu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut mae cysgodion yn cael eu creu. Roedd gan bob plentyn un llun o gymeriad neu wrthrych yr un o'r stori. Pan roeddwn yn llun wrth i mi ddarllen y stori roedd yn rhaid iddynt ei dal o flaen y golau i greu ei gysgod. Felly roedd angen i bob un i ganolbwyntio a gwrando yn astud.

Cymerodd e sawl gwaith i wneud yn gywir oherwydd roedd y plant yn gyffrous a methu aros am eu tro. Ond ar ôl iddynt gael tro i greu'r cysgodion roeddwn wedi setlo ac yn canolbwyntio er mwyn cwblhau'r dasg. Oherwydd roeddwn wedi dysgu am gysgodion yn flaenorol roeddwn yn deall y cysyniad ac yn gwybod ble i osod y llun er mwyn ei greu.

Myfyrdod beirniadol

Friday, January 3, 2020 2:34 PM

Pwrpas y darn yma yw adfyfyrio ar weithrediad o dri o'r deuddeg egwyddor addysgeg amlinellir yn y cwricwlwm newydd i Gymru yn ystod cyfnod cyntaf o Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP). Mae'r ysgol PAP hon wedi lleoli mewn tref fechan sydd â phoblogaeth o tua 2,000 yn Sir Gaerfyrddin, mae tua 315 o blant yn mynychu'r ysgol yn gyson. Cynhalwyr y cyfnod yma yn nosbarth Meithrin gyda phlant o 3-4 mlwydd oed. Roedd yna tri deg naw o blant i gyd, gydag un ar ddeg yn llawn amser a'r gweddill yn rhan amser. Bydd yr adran hon yn edrych ar y llenyddiaeth sy'n cysylltu ag egwyddorion addysgeg gyda ffocws penodol ar y tair addysgeg a ddewiswyd. Ac yna yn myfyrio ar weithrediad rhain yn y profiad gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwella am y dyfodol.

Mae cael egwyddorion addysgeg glir yn bwysig er mwyn sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd da. Yr addysgeg gyntaf hoffwn drafod yw cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae llythrennedd a rhifedd wedi cael blaenoriaeth ym maes addysg ers 2013 pan gyflwynwyd y fframwaith llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) i ysgolion. Roedd y "gweinidog addysg a sgiliau Leighton Andrews AC, wedi gwneud codi safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn flaenoriaeth" (Llywodraeth Cymru, 2013). Y pwrpas y fframwaith yw helpu'r athrawon ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws meysydd y cwricwlwm.

Mae'r fframwaith yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer plant o 5-14 mlwydd oed. Amlinellwyd y sgiliau sydd angen ddatblygu dros y blynyddoedd yn glir er mwyn helpu athrawon i ddatblygu'n gyson dros y meysydd ac nid yn unig mewn gwersi iaith a mathemateg pur. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig iawn i blant i ddatblygu a chael y cyfle i ddefnyddio o draws y meysydd dysgu oherwydd mae angen y sgiliau hyn arnom ym mhob agwedd o'i fywydau. Dywed Barnes (2015) Mae ein profiad o'r byd o amgylch ni yn drawsgwricwlaidd ac mae popeth yn cael ei ddeall o safbwyntiau gwahanol, felly pam roeddwn yn dysgu mewn pynciau penodol yn unig?

Cydnabu'r athro Donaldson y pwysigrwydd y fframwaith pan roeddwn yn adolygu'r cwricwlwm presennol ond hefyd roedd e'n awgrymu fod angen pwyslais ar ddatblygu sgiliau digidol un yr un modd. Felly awgrymodd Donaldson (2015) yn ei adroddiad dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i bob athro/athrawes er mwyn darparu'r cyfleoedd i'r plant i gryfhau eu dealltwriaeth a defnydd o'r sgiliau yma.

Mae'r fframwaith cymhwysedd digidol wedi cael eu cyhoeddi yn 2016. Dyma'r elfen gyntaf o'r cwricwlwm newydd i Gymru i gael ei weithredu. Cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau mae angen ar bobl ifanc i ddatblygu i fod yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg nawr a gweddill eu bywydau. Mewn byd ble mae technoleg yn newid yn gyflym ac yn gyson, mae angen ddatblygu sgiliau digidol disgyblion er mwyn sicrhau byddant yn gallu defnyddio technoleg yn ddiogel ac yn effeithiol.

Dywed World Economic Forum (2016) bod 65% o blant oedd wedi dechrau ysgol gynradd yn 2016 yn mynd i fod mewn swyddi newydd sydd ddim hyd yn oed yn

bodoli eto oherwydd mae technoleg yn newid ac yn esblygu'n gyflym. Felly mae'n bwysig bod plant yn datblygu ei sgiliau digidol er mwyn fod yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Datblygwyd y fframwaith i fod yn gymhwysol i ddysgwyr o 3-16+ mlwydd oed. Maent yn cynnwys y sgiliau mae angen ar blant ifanc hyd at blant 16+. Dywed Barnes (2015) bod plant yn defnyddio fwy o dechnoleg adref i gymharu â'r ysgol ac mae ysgol ddim yn defnyddio technoleg ddigon mewn ysgolion hyd at nawr. Felly mae'n bwysig bod ysgolion yn defnyddio'r fframwaith yma er mwyn ddatblygu sgiliau blant ar draws meysydd a sut i fod yn ddiogel ar y we.

Yn ystod fy mhrofiad yn PAP 1 fe ddefnyddiais y fframweithiau llythrennedd a Rhifedd a chymhwysedd digidol i gynllunio fy ngwersi. Roeddwn yn gyfarwydd â'r cysyniad o weithio'n drawsgwricwlaidd yn y Cyfnod Sylfaen cyn i mi ddechrau oherwydd roeddwn wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd dosbarth yn y gorffennol.

Fe wnes i lawer o waith i ddatblygu sgiliau llafar fel enghraifft, patrymau iaith gan wneud gweithgareddau dyddiol sef trafod y tywydd, diwrnodau'r wythnos ac yn y blaen. Roeddwn yn gwneud amser cylch yn wythnosol er mwyn ceisio gael y plant i drafod eu teimladau a theimladau phobl eraill. Yn ogystal i hyn roeddwn yn adeiladu ar eu llythrennau yn wythnosol hefyd.

Ar ddechrau'r profiad fe sylwais fod angen datblygu sgil dal pensil yn gywir a'r rhan fwyaf o'r disgyblion y dosbarth(fel y'i nodir yn enghraifft eglurhaol 2 am yr egwyddor hon). Defnyddies wers patrymau i gryfhau hyn. Mae datblygu sgiliau llawdriniol manwl yn gynnar yn hynod o bwysig er mwyn gallu ysgrifennu yn gywir.

Yn y cyfnod yma o fy mhrofiad fe wnes i ddim datblygu digon o sgiliau rhifedd y plant fel yr hoffwn. Rwy'n siomedig oherwydd bod rhifedd mor bwysig i fywyd bob dydd ac yn hynod o bwysig i blant i fod yn hyderus wrth ddefnyddio. Yn ôl Estyn (2013) rhwng 2010-2012 roedd gan tua dwy allan o bum ysgol gynradd a hanner ysgolion uwchradd, gaeth arolwg, ag medrau rhifedd gwan oherwydd plant yn "cael trafferth gyda'r pethau sylfaenol". Felly, mae'n amlwg bod angen codi hyn.

Rydym yn defnyddio rhifedd cymaint yn ddyddiol, mwy nag yr ydym yn ei sylweddoli mewn gwirionedd. Defnyddiwyd pan rydym yn aros am fws neu drên, dweud yr amser, coginio, siopa hyd yn oed pan rydym yn gyrru'r car. Dyma pam mae'n hollol bwysig i ddatblygu ein hyder a dealltwriaeth o sut i ddefnyddio rhifedd.

Ynglŷn â'r fframwaith cymhwysedd digidol, fe ddefnyddies dipyn o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i gyflwyno'r gwersi neu i gloi. Cawsom y plant yn cael y cyfle i ddefnyddio er mwyn chwarae gemau, cwblhau tasgau a gwrando a'r storïau. Hefyd cafwyd y cyfle i drafod Bee-Bots a gweithio ar Jit a sganio codau QR. (Gweler enghraifft 3)

Erbyn diwedd y cyfnod llwyddais i daro'r holl sgiliau ar y fframwaith llythrennedd o leiaf unwaith. Ynglŷn â rhifedd fe lwyddais i daro sgiliau rhif a mesur yn unig, felly mae angen cynllunio yn fwy gofalus yn ystod cyfnod nesaf o fy mhrofiad er mwyn sicrhau fy mod i'n datblygu'r holl sgiliau rhifedd ar draws y meysydd.

Yr ail addysgeg o’r cwricwlwm newydd rwyf am drafod yw asesu ar gyfer dysgu. Asesu yw'r proses o ddarganfod ble mae’r plant ynglŷn â'u dysgu. Defnyddir asesu i wella ac i brofi dysgu ac mae yna ddau fath o asesiad, asesu ar gyfer dysgu ac asesu crynodol. Mae llawer o dystiolaeth yn arwain at y pwysigrwydd o asesu ar gyfer dysgu (AagD). Mae AagD yn digwydd yn gyson yn yr ystafell ddosbarth ac mae asesu crynodol yn digwydd ar ddiwedd uned o waith neu flwyddyn drwy wneud prawf neu arholiad.

Mae AagD yn helpu athrawon a phlant i wybod ble mae angen i’r addysgu a dysgu mynd nesaf er mwyn gwneud cynnydd. Maent yn wahanol i asesiad crynodol sef arholiadau neu brofion i ddangos beth maent wedi dysgu ond ddim yn rhoi ffordd ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru (2017) wedi dweud taw codi safonau a lleihau’r bwlch cyrhaeddiad yw ein cenhadaeth genedlaethol ac mae asesu ar gyfer dysgu yn un ffordd o wneud hynny. ‘Dylid ei ddefnyddio er budd gorau’r disgyblion; gan alluogi athrawon i addasu eu strategaethau addysgu a chefnogi eu cynnydd.’ (Llywodraeth Cymru, 2017)

Noda Wiliam a Black yn eu dogfen ‘inside the black box’ (1998) bod angen i athrawon wybod ble mae disgyblion yn ei dysgu i wybod ble maent yn mynd nesaf a sut i gyrraedd. Gall athrawon gwneud hwn mewn llawer o ffyrdd gwahanol sef arsylwi plant, cael trafodaeth gyda’r plant a darllen eu gwaith. Daw asesu yn ffurfiannol pan mae’r addysgu yn cael ei addasu er mwyn symud y dysgu i’r camau nesaf.

Yn ôl Wiliam a Black ‘strenghening the practice of formative assessment produce significant, and often substantial, learning gains.’ (Wiliam a Black, 1998, t 3) Mae enillion dysgu yma yn cael eu mesur wrth gymharu’r gwahaniaeth rhwng y gwelliant cyfartalog yn sgoriau disgyblion a'r ystod o sgoriau ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion ar yr un profion.

Gelwir hyn yn ‘Effect-size’. Gwnaeth John Hattie (2012) llawer o ymchwil ar ‘Effect-size’ ac wedi rhestri dylanwadau sy’n gysylltiedig â dysgu yn ôl hyn. Graddiodd y rhain o’r effeithiau positif i’r effeithiau negyddol iawn. Mae gan asesu ar gyfer dysgu ‘effect-size’ o 0.4, sydd yn uchel iawn i gymharu ag ymyriadau addysgol eraill.

Felly mae hyn yn golygu mae cyflymder y dysgu yn gallu dyblu, sy’n meddwl bod y disgyblion yn gallu gwneud cynnydd blwyddyn mewn chwe mis. (Dyfodol Llwyddiannus, 2015)

Noda Estyn (2018) fod asesu at gyfer dysgu yn effeithiol o ran codi safonau ac yn gwneud dysgu yn fwy gweladwy. Hefyd wrth drafod y camau nesaf gyda disgyblion maent yn gwybod beth a sut i wneud i gyrraedd. Un ffordd o wneud hwn yw trafod y meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion. Meini prawf llwyddiant yw rhestr o sgiliau neu nodweddion sydd angen cwblhau neu ddefnyddio i gyrraedd nod y wers. Yn ôl Hattie (2012) yn fwy tryloyw yw'r nodau i blant, y mwyaf tebygol y byddant am ymgysylltu a bydd hyn yn eu helpu i'w cyrraedd. Maent yn helpu os mae’r disgyblion yn rhan o osod y meini prawf oherwydd byddant yn teimlo’n fwy cyfrifol am ddysgu eu hunain. Bydd hyn yn datblygu eu meddylfryd twf.

Cysylltir hyn a gwaith Carol Dweck (2017) ar feddylfryd twf. Yn ôl Dweck mae dau

feddylfryd gwahanol, twf a sefydlog. Meddylfryd sefydlog yw'r gred bod nodweddion a deallusrwydd yn sefydlog ac yn osgoi heriau . Meddylfryd twf yw'r gred y gellir datblygu deallusrwydd trwy waith caled ac ymroddiad ac felly yn datblygu cariad at ddysgu. Mae nifer o strategaethau AagD sydd hefyd yn datblygu meddylfryd twf sy'n cynnwys cwestiynu, hunan asesu ac asesu cyfoedion, meini prawf llwyddiant a'r defnydd ac ansawdd o adborth. Wrth i'r plant weld eu hunain yn llwyddo byddant yn datblygu eu meddylfryd twf a'u cariad tuag at ddysgu.

Yn ystod fy nghyfnod cyntaf yn PAP 1 fe ddefnyddies dechnegau gwahanol ar gyfer asesu ar gyfer dysgu. Yn yr wythnos gyntaf (wythnos baratoi) sylwais ar sut oedd yr athrawes a'r disgyblion yn rhyngweithio a sut ymatebodd y plant i'r cwestiynau a'r gweithgareddau a osodwyd. Defnyddiodd yr athrawes ffyn loli gyda'r enwau'r disgyblion arnynt, pan fydda hi'n gofyn cwestiwn byddai'n dewis disgybl i ateb gan ddewis ffon. Felly dyma'r AagD cyntaf defnyddiais oherwydd roedd y plant yn gyfarwydd â'r dull yma. Mae dull yma yn dda oherwydd bydd y disgyblion i gyd yn meddwl am ateb rhag ofn taw enw nhw fydd yn cael ei ddewis.

Ar ddechrau'r cyfnod yma fe wnes i weithgareddau ymarferol yn unig felly ddefnyddiais lawer o gwestiynu i asesu dealltwriaeth y plant ar ddechrau, yn ystod ac ar ddiwedd y gwersi. (Gwelir enghraifft ddarluniol 1) Hefyd cyflwynais fodiau dealltwriaeth iddynt, cyn hynny roeddwn ddim yn defnyddio o gwbl felly cymerodd e gwbl o wersi iddynt ddeall y cysyniad. Ond erbyn diwedd y cyfnod roedd yn blant yn defnyddio'n hyderus.

Fodd bynnag, rwy'n teimlo mae angen datblygu fy sgiliau o gwestiynu, un ffordd gallwn wneud hwn yw defnyddio tacsonomi Bloom (Bloom 1984, diffynwyd yn Pearson 2015). Mae Tacsonomeg Bloom yn drefn hierarchaidd o sgiliau gwybyddol a all helpu athrawon i addysgu, a myfyrwyr i ddysgu drwy ddatblygu sgiliau meddwl, gosod a chwblhau tasgau ac wrth holi ac ateb cwestiynau.

Yn ogystal â hyn mae angen sicrhau bod digon o amser iddynt feddwl am yr ateb. Mae ymchwil yn dangos bod athrawon ddim yn rhoi ddigon o amser i'r disgyblion i ymateb. Dywed Row (1986) bod athrawon ddim ond yn aros 1 eiliad am ymateb ac os maent yn aros am 3 eiliad neu fwy bydd newidiadau enfawr yn eu hymatebion.

Wrth i'r lleoliad ddatblygu fe wnes i rannu'r meini prawf gyda'r plant oherwydd roedd hwn yn un o'r targedau roedd angen i mi weithio arno. Erbyn diwedd y lleoliad roeddwn yn gwneud hwn ym mhob gwers a pan roeddwn yn gwneud gwaith yn y llyfrau roeddwn yn gludo'r meini prawf ar y tudalen. Dywed Hattie (2012) Pan fyddwn yn rhannu'r meini prawf llwyddiant gyda'r myfyrwyr rydym yn dangos iddynt sut y gallant lwyddo, bydd hyn yn eu cymell ac yn eu helpu i gyflawni. Wrth iddynt weithio byddwn yn cyfeirio at hyn ac ar ddiwedd y wers roeddwn yn trafod gyda'r plant os oedd y plant wedi cwblhau'r dasg yn gywir wrth edrych arno. (Gweler Enghraifft darlunio 2)

Wrth wneud tasgau ymarferol a heriau byddaf yn aml yn rhoi adborth i'r disgyblion ynglŷn â'r meini prawf a chamau nesaf. Byddaf yn holi cwestiynau i weld os oeddwn yn deall beth i wneud a hefyd i geisio cael nhw i hunan werthuso. Pan roeddwn yn gwneud gwaith yn y llyfrau byddaf yn marcio eu gwaith (gweler enghraifft 3) ac yna trafod beth roeddwn wedi ysgrifennu oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu darllen eto ac maen pwysig bod nhw'n cael adborth.

Maen amlwg wrth edrych ar y dystiolaeth ynghylch AagD pa mor bwysig mae e. Cymharodd Clarke (2001 diffynwyd yn Dubiel 2016) asesu plant fel planhigion. Asesu crynodol sy'n mesur ble mae cyrhaeddant y plentyn (mesur taldra'r planhigyn) ac mae AagD yw helpu'r plentyn symud ymlaen yn ei dysgu a gwybod sut (dwr a'r haul sy'n helpu'r planhigyn i dyfu).

Y drydedd addysgeg o'r cwricwlwm newydd rwyf am drafod yw adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau ac ennyn diddordeb. Dywed Donaldson (2015) maeaddysgu a dysgu da yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol ac yn ennyn diddordeb, oherwydd bod plant yn cychwyn ysgol gyda phrofiadau a diddordebau gwahanol sy'n golygu byddant yn ymdrin â dysgu yn ffordd ei hunain. Felly maent bwysig bod athrawon yn cael rhyddid i ddewis adnoddau a thasgau sy'n addas i'r plant yn y dosbarth a fydd y cwricwlwm newydd yn galluogi hyn.

Noda Hattie (2012) yr hyn y mae plant yn dod ag i'r dosbarth yw'r cyflawniadau a gawsant y flwyddyn flaenorol. Felly cyn mynd ati i gynllunio gwersi mae angen i'r athro wybod beth mae'r disgyblion yn gallu gwneud a beth maent yn gwybod yn barod. Cyd weithio mae Hattie yn awgrymu yw'r ffordd fwyaf pwerus o gynllunio gwersi, datblygu dealltwriaeth am beth i addysgu a dadansoddi ei effaith ar ddysgu'r disgyblion. Y peth pwysicaf yw bod pob plentyn yn gwneud cynnydd. Mae'n bwysig hefyd bod yr athro yn deall ffyrdd o feddwl y disgyblion er mwyn helpu ddatblygu eu dysgu a dealltwriaeth o bethau.

Mae hyn yn cysylltu gyda damcaniaeth Piaget (1952, diffynwyd gan McLeod, 2018) am ddatblygiad gwybyddol. Maent dal i gael ei gydnabod am ei waith ar sut mae plant yn meddwl ac yn dysgu. Canfu Piaget fod plant yn datblygu sgemâu wrth iddynt brofi'r byd o'u cwmpas ac yna eu defnyddio i ddeall cysyniadau tebyg eraill ac adeiladu arnynt. Hefyd dywed Piaget fod pedwar cam o ddatblygiad gwybyddol ac mae plant yn mynd drwyddynt ar oedrannau penodol. Felly maen pwysig bod athrawon yn deall sut mae plant yn meddwl ac yn gweld y byd o'u gwmpas a dewis tasgau ac adnoddau sy'n adeiladu ar sgemâu sydd ganddynt er mwyn gallu datblygu eu dealltwriaeth ymhellach.

Mae'r rhan arall o'r egwyddor hyn yn sôn am ennyn diddordeb y disgyblion drwy ddewis tasgau ac adnoddau fydd yn ddiddorol i'r plant ond hefyd yn helpu nhw i ddeall neu ddatrys problemau. Noda Estyn (2016) bod un ysgol uwchradd yng Nghymru yn dylunio ei chwricwlwm a'r sail diddordebau ac anghenion disgyblion a'r gymuned sy'n cael ei addasu pob blwyddyn i ennyn hyn. Mae'r ddarpariaeth hon wedi bod yn llwyddiannus gan fod dysgwyr yn hyderus, yn annibynnol sy'n dangos lefelau uchel o wytnwch ac ymgysylltu'n dda â'u hastudiaethau ac wedi dangos cynnydd sylweddol yn eu deilliannau.

Yn fy nghynlluniau gwersi am y cyfnod gyntaf o PAP maen amlwg fod i wedi adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau plant. Ond doeddwn i ddim yn gwahaniaethu ddigon ar ddechrau'r profiad oherwydd roedd plant llawn amser, plant y bore a phlant y prynhawn, felly roeddwn yn gosod tasgau a heriau i'r plant y bore ac roeddwn yn anghofio roedd angen addasu nhw ar gyfer plant y prynhawn. Ond wrth i'r amser myn ymlaen roeddwn yn dod i nabod y plant a'u diddordebau felly roeddwn yn gallu gosod tasgau priodol iddynt ac oedd yn eu herio nhw.

Cysylltir hyn i waith Vygotsky (1978, dyfynnwyd yn Smidt) bod oedolion yn scaffalio'r plant i gyrraedd eu nodau dysgu mae’r bwlch rhwng beth mae’r plant yn gallu gwneud yn barod a beth allwn wneud gyda chymorth yw ‘parth datblygiad procsimol’.

Wrth osod tasgau ac adnoddau sy’n adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol wrth ennyn diddordeb rydych yn scaffoldio i gyrraedd eu gwir botensial.

Roeddwn yn ennyn diddordeb y plant gosod tasgau roeddwn wedi mwynhau mewn gwersi eraill er enghraifft mewn gwers patrymau (gweler enghraifft darlunio 2) roeddwn yn defnyddio blociau i greu patrymau lliw. Roeddwn wedi mwynhau gymaint rhoddais i e fel her yn y dosbarth ond roedd angen iddynt greu nadroedd gan ddefnyddio’r blociau a chordyn. Mewn gwersi eraill roeddwn yn edrych ar gysgodion roeddwn wedi mwynhau cymaint defnyddiais gysgodion i ail adrodd stori (gweler enghraifft ddarluniol 3).

Mewn gwers iaith, oedd yn canolbwyntio a’r sŵn cychwynnol llythyren newydd. Roedd angen iddynt ddidoli gwrthrychau yn ôl ei sŵn cychwynnol gweithio mewn grwpiau bach (Gweler enghraifft ddarluniol 1). Cysylltir hyn gyda’r syniad o ‘sustained shared thinking’ (SST) diffynwyd Siraj-Blatchford et al (2002) SST yw pryd mae pobl yn gweithio gyda’i gilydd mewn ffordd ddeallusol i ddatrys problem, egluro cysyniad neu werthuso gweithgaredd ayyb. Ond mae angen i bob un i gyfrannu er mwyn datblygu ac ymestyn y ddealltwriaeth. Defnyddies wrthrychau oedd yn dechrau gyda llythrennau oeddent yn adnabod yn flaenorol yn ychwanegol i’r llythyren newydd er mwyn iddynt wrando a meddwl am y sŵn cychwynnol. I ennyn eu diddordeb, defnyddiais gymeriad poblogaidd y maent yn ei hoffi sef Sali Mali (Gweler enghraifft 1)

Ceisiais fy ngorau i ennyn diddordeb yr holl fyfyrwyr ond darganfyddai na allai rhai gweithio mewn sefyllfa grŵp oherwydd diffyg canolbwyntio ac felly rhoddais gefnogaeth iddynt ar sail un i un. Fodd bynnag, pe bawn i'n dod i adnabod eu diddordebau o'r cychwyn, efallai y byddwn wedi gallu delio â hyn yn well. Felly, dyma beth hoffwn i'w gyflawni yn fy mhrofiad nesaf.

Ar gyfer fy mhrofiad nesaf yn PAP mae angen sicrhau fy mod i’n cynllunio fy ngwersi yn datblygu sgiliau plant ar draws y meysydd yn enwedig rhifedd a sgiliau digidol yn ogystal â llythrennedd. Cyn mynd ati i gynllunio mae angen darganfod beth mae’r disgyblion yn gwybod a gallu gwneud yn barod er mwyn symud ymlaen. Yn ogystal â hyn mae angen gwybod beth yw ei diddordebau a sut ydyn yn meddwl neu yn deall pethau a dewis tasgau ac adnoddau i adlewyrchu hyn. Yn ystod fy mhrofiad rwyf am ddatblygu fy nealltwriaeth o SST, blooms tacsonomeg, a defnyddio mwy o strategaethau AagD er mwyn sicrhau bod y dysgu yn symud ymlaen yn gyson. Ond yn bwysicaf bod y disgyblion yn cael adborth cyson ac yn ymwybodol o’u llwyddiant a'u targedau er mwyn gwneud cynnydd.

Cyfeiradau

Friday, January 3, 2020 2:35 PM

Barnes, J., 2015. *Cross-curricular learning 3-14.* 3rd ed., Los Angeles: Sage Publications.

Donalson, G. *Dyfodol Llwyddianus* ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf (Darllenwyd: 21.12.19)

Dubiel, J (2016) *Effective Assessment in the Early Years Foundation Stage,* Llundain: Sage

Dweck, C (2017) *Mindset,* Llundain: Robinson

Education Emdowment Foundation(2018) '*Feedback'* ar gael yn https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/generate/?u=https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/toolkit/?id=131&t=Teaching%20and%20Learning%20Toolkit&e=131&s= (Darllenwyd: 30.12.19)

Education Emdowment Foundation(2019) *'Digital Technology'* ar gael yn: https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/generate/?u=https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/toolkit/?id=295&t=Teaching%20and%20Learning%20Toolkit&e=295&s= (Darllenwyd: 20.12.19)

Estyn (2013) *Disgyblion yn cael trafferth gyda medrau rhif sylfaenol*. Ar gael yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/newyddion/disgyblion-yn-cael-trafferth-gyda-medrau-rhif-sylfaenol (Darllenwyd: 17.12.19)

Estyn (2016) *Cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb pob disgybl* ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cwricwlwm-sy'n-ennyn-diddordeb-pob-disgybl (Darllenwyd: 23.12.19)

Estyn (2018) A*sesu ar gyfer Dysgu a medrau meddwl.* Ar gael yn:

https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/asesu-ar-gyfer-dysgu-medrau-meddwl(Darllenwyd 20.12.19)

Hattie, J (2012) *Visible learning for teachers*, Oxon: Routledge

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Physical Development* . Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/storage/9b5ebf42-d636-4232-9452-e186c21b7eae/physical-development.pdf (Darllenwyd: 30.12.19)

Llywodraeth Cymru (2013) Ymgynghoriad – *crynodeb o'r ymatebion Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a Phrofion.* Ar gael yn:

https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/130124summaryofresponsescy.pdf (Darllenwyd 17.12.19)

Llywodraeth Cymru (2017). *Datganiad Ysgrifenedig - Asesu ar gyfer Dysgu.* ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-asesu-ar-gyfer-dysgu (Darllenwyd 22 .12. 19)

McLeod, S. (2018)*The Preoperational Stage of Cognitive Development*

ar gael yn: https://www.simplypsychology.org/preoperational.html (Darllenwyd: 27.12.19)

Medwell, J. (2010) 'Appraoching short-term planning ' in Arthur, J a Cremin, T (gol) *Learning to teach in the primary school,* Oxon: Routledge

OECD (2012), *Literacy, Numeracy and Problem Solving in Technology-Rich Environments: Framework for the OECD Survey of Adult Skills*, OECD Publishing, Paris, ar gael yn: https://read.oecd-ilibrary.org/education/literacy-numeracy-and-problem-solving-in-technology-rich-environments_9789264128859-en#page1(Darllenwyd 16.12.19)

Pearson, J. (2015) 'approaches to teaching and learning 1: developing a range' in Denby, N (gol.) *Training to teach,* London: Sage

*Rowe, M.B.(*1986) *Wait Time: Slowing Down May Be A Way of Speeding Up! Journal of Teacher Education* ; 37; 43 ar gael yn: https://www.scoe.org/blog_files/Budd%20Rowe.pdf (Darllenwyd 27.12.19)

Siraj-Blatchford, I. (2009). Conceptualising progression in the pedagogy of play and sustained shared thinking in early childhood education: a Vygotskian perspective. Education and Child Psychology, 26 (2), 77-89.

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Muttock, S., Gilden, R., & Bell, D. (2002). *Researching Effective Pedagogy in the Early Years (REPEY) DfES Research Report 365.* HMSO London: Queen's Printer.

Smidt, S (2013) *The developing child in the 21st Century*, Oxon, Routledge

World Economic Forum (2016) *The Future of Jobs Employment, Skills and Workforce Strategy for the Fourth Industrial Revolution* http://www3.weforum.org/docs/WEF_Future_of_Jobs.pdf (Darllenwyd 26.12.19)

Black, P & Wiliam, D 1998, *Inside the Black Box: Raising standards through classroom assessment*, School of Education, King's College, London, United

Kingdom. Ar gael yn:https://www.rdc.udel.edu/wp-content/uploads/2015/04/InsideBlackBox.pdf (Darllenwyd 20.12.19)